| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Ymarferydd Gwaith – Gwaith Cymdeithasol Hyn-Tim Rhyddhau o’r Ysbyty** |
| **Lleoliad:** | **Ystwyth/Ysbyty Aneurin Bevan** |
| **Cyfarwyddiaeth:** | **Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Swydd Rhif:** | **BG03791** |
| **Cyflog:** | **Gradd 9 (£43,693 - £47,754 y flwyddyn pro rata)** |
| **Oriau:** | **22.5** |
| **Contract:** | **Parhaol** |

**Crynodeb Swydd**
Rydym yn chwilio am Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol profiadol i fod yn Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol Uwch yn y Tim rhyddhau o ysbyty.

Fel uwch ymarferydd, byddwch yn gweithio’n uniongyrchol i’r Rheolwr y Tim Iechyd Meddwl, a’r Tim Rhyddhau o’r Ysbyty o fewn Blaenau Gwent.

Mae mynediad i gerbyd at ddibenion gwaith yn ofyniad ac fe fydd y deiliad swydd llwyddiannus yn cael ei ddynodi yn weithiwr ystwyth sy’n golygu y byddant yn gweithio’n rhannol yn ein hadeiladau Gofal Cymdeithasol ac o’r cartref.

**Hysbyseb Lawn**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn falch i fod wedi datblygu swydd ymarferydd arweiniol i gefnogi ein preswylwyr mwyaf agored i niwed. Dymunwn recriwtio unigolyn uchelgeisiol a rhagweithiol fydd yn llysgennad dros ein hoedolion agored i niwed gan sicrhau y cânt eu diogelu’n briodol a’n bod fel partneriaid statudol yn cefnogi eu barn, dewisiadau ac yn gweithredu er budd gorau iddynt bob amser. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymarferydd gwaith cymdeithasol profiadol sy’n angerddol am weithio o fewn y maes, sydd â gwybodaeth gadarn o ddeddfwriaeth berthnasol a sydd hefyd yn hyderus wrth ddefnyddio’r wybodaeth hon i ddatblygu ac ymwreiddio pwerau deddfwriaethol presennol ac arfaethedig ar draws ein timau gwaith cymdeithasol ehangach yn cynnwys cefnogi gyda trafodion llys.

Fel uwch ymarferydd disgwylir i chi hefyd:
- Goruchwylio staff perthnasol yn cynnwys, lle’n briodol, ddyrannu gwaith a dyletswyddau rheoli eraill
- Byddwch yn cynrychioli’r Adran Gwasanaethau Oedolion mewn digwyddiadau hyfforddiant perthnasol, cyfarfodydd mewnol ac allanol a chynadleddau

- Arwain, datblygu a darparu hyfforddiant perthnasol yng nghyswllt newidiadau deddfwriaethol
- Rheoli cyllidebau a ddyrannwyd
- Cydymffurfio a chadw at ddatganiad polisi yr Awdurdod ar Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn y Gwaith a'r Polisi Cydraddoldeb Corfforaethol

Bydd angen i bob ymgeisydd fod â:
- Cymhwyster gwaith cymdeithasol cydnabyddedig ac os yn bosibl ddyfarniad Asesydd Budd gorau
- Cofrestriad gyda Gofal Cymdeithasol Cymru
- Profiad ôl-gymhwyso sylweddol o ofal statudol Oedolion
- Profiad rheoli cyllideb
- Profiad o ymwneud yn uniongyrchol gyda deddfwriaeth Diogelu Oedolion a Gofal Iechyd Cymhleth
- Profiad mewn cadeirio cyfarfodydd cymhleth gyda phartneriaid statudol perthnasol

Mae angen cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru dan gategori Rheolwyr Gofal Cymdeithasol/Gweithwyr Cymdeithasol ar gyfer y swydd hon a bydd angen cofrestru cyn dechrau yn y swydd. Mae gwybodaeth ar sut i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael ar y wefan ddilynol https://socialcare.wales

Cymeradwywyd Lwfans Defnyddiwr Car Achlysurol ar gyfer y swydd felly mae angen mynediad i gerbyd ar gyfer dibenion gwaith a bydd y deiliad swydd llwyddiannus yn weithiwr ystwyth hybrid fydd yn golygu y bydd yn gweithio yn ein adeiladau Gofal Cymdeithasol ac o gartref.

**Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio. Bydd angen i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgeliad Cofnodion Troseddol.**

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg**

**Ar gyfer gwybodaeth am ail-gysylltu cyn-weithwyr, gweler Polisi Cyflog y Cyngor.**

**Dyddiad Cau:** **20/02/2025 – 12:00am, canol nos, canol nos**

**Dyddiad Cyfweliadau:** **I'w gadarnhau**